# HUMPHREYS, DAVID (1813 - 1866), gweinidog

**Enw:** David Humphreys
**Dyddiad geni:** 1813
**Dyddiad marw:** 1866
**Rhiant:** Elizabeth Humphreys
**Rhiant:** Edward Humphreys
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Edward Jones

Ganwyd 13 Hydref 1813, mab Edward ac Elizabeth Humphreys, Glyndu, Llangynog, Sir Drefaldwyn. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn 1840, ac ordeiniwyd ef yn 1848; bu am ychydig yn athrofa'r Bala. Yr oedd yn r hynaws ac yn bregethwr cymeradwy. Priododd chwaer Humphrey Evans, blaenor yn Llanrhaeadr Mochnant, lle y treuliodd weddill ei oes. Yr oedd yn saer coed medrus, a llwyddodd yn ei fasnach. Efe a roddodd dir i adeiladu yr ysgoldy Brutanaidd a chapel Bethesda yn y Llan. Yr oedd yr elfen farddonol yn y teulu. Bardd gwych oedd ei frawd - ' Iorwerth Cynog.' Er i David Humphreys ysgrifennu llawer o farddoniaeth ni chyhoeddwyd ond ' Babel gwympa,' emyn dirwestol. Bu farw 25 Gorffennaf 1866.

## Awdur

**Edward Jones**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu